



Helen Mary Jones AS
Cadeirydd – Pwyllgor Diwylliant,
Y Gymraeg a Chyfathrebu

SeneddDGCh@senedd.cymru

09 Gorffennaf 2020

Annwyl Helen Mary Jones,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 18 Mehefin yn gofyn a oes rhestr o gerfluniau mewn manau cyhoeddus. Fe wnaethoch ofyn hefyd pa gamau yr ydym yn eu cymryd i sefydlu rhestr o'r fath.

Mae Cof Cymru, adnodd ar-lein Cadw, sy'n darparu gwybodaeth am leoliad a manylion asedau hanesyddol dynodedig a chofrestredig ledled Cymru, yn cynnwys y cerfluniau hynny sy'n rhestredig neu'n gofrestredig – gweler y rhestr sydd ynghlwm. Nid yw'r rhestr yn hollgynhwysol gan fod lefel yr wybodaeth sy'n gysylltiedig â phob adeilad rhestredig yn amrywio.

Mae'r Prif Weinidog wedi cyhoeddi'n ddiweddar ei fod yn sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen i oruchwyllo'r gwaith o baratoi archwiliad o henebion a chofebau, enwau strydoedd ac adeiladau ledled Cymru sydd â chysylltiad ag agweddau ar hanes pobl dduon, ac yn benodol, rôl yr Ymerodraeth Brydeinig a'r fasnach mewn caethweision fel y mae'n berthnasol i Gymru. Mae wedi gofyn hefyd i'r grŵp sy'n goruchwyllo'r gwaith nodi ac ystyried materion sy'n codi o'r archwiliad a allai fod yn sail i ail gam y prosiect. Caiff y grŵp ei gadeirio gan Gaynor Legall a bydd yn cynnwys cynrychiolwyr a ddewisir oherwydd eu gwybodaeth arbenigol am hanes caethwasiaeth a chymunedau duon yng Nghymru. Bydd tîm prosiect bychan yn Cadw yn cefnogi gwaith y grŵp gorchwyl a gorffen.

Bydd y grŵp gorchwyl a gorffen yn darparu cyngor arbenigol i gefnogi:

- Archwiliad o gerfluniau, cofebau a strwythurau coffa eraill mewn manau cyhoeddus yng Nghymru, gan gynnwys casglu gwybodaeth am hanes, perchenogaeth a chyfrif cyfrifol a ph'un a ydynt wedi'u dynodi ai peidio.
- Archwiliad o enwau strydoedd ac adeiladau cyhoeddus dadleuol.
- Adolygiad cryno o'r materion a godwyd gan y safleoedd, yr enwau a'r adeiladau hyn a datblygu syniadau cychwynnol ar gyfer gwaith pellach.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Dafydd.Elis-Thomas@llyw.cymru
Correspondence.Dafydd.Elis-Thomas@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Yr amcan fydd cwblhau'r archwiliad o safleoedd ac enwau lleoedd gan gynnwys nodi'r materion a godir gan yr archwiliad erbyn diwedd mis Hydref eleni.

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'E. Elis-Thomas'.

Yr Arglwydd Elis-Thomas AS/MS

Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth
Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism